

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

| | |
|-----------------------------------|--|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| Fideogynhadledd drwy Zoom | Manon George |
| Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Mai 2020 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.30 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDGCh@senedd.cymru |

(9:30 – 10:00) Rhag-gyfarfod anffurfiol

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(10:00– 11:00)

(Tudalennau 1 – 12)

Lord Dafydd Elis-Thomas – Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Jason Thomas – Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

3 Papurau i'w nodi

3.1 Gohebiaeth â'r BBC

(Tudalennau 13 – 16)

3.2 Gohebiaeth gan Rwydwaith Radio Cymunedol Cymru

(Tudalen 17)

3.3 Gohebiaeth â Media Wales

(Tudalennau 18 – 20)



3.4 Brîff gan BBC Cymru

(Tudalennau 21 – 23)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5 Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a chwaraeon: cytuno ar y cylch gorchwyl

(11:00–11:05)

(Tudalennau 24 – 25)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ken MacQuarrie

Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau, y BBC

cc. Rhodri Talfan Davies

Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales

31 Mawrth 2020

Annwyl Ken,

Sioe frecwast y BBC a bwletinau newyddion o Gymru

Yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn gyfrifol am oruchwylio cyflawniad y BBC o'i chylch gwaith yng Nghymru.

Mae wedi dod i sylw'r Pwyllgor na fydd bwletinau newyddion o Gymru o ddydd Llun 30 Mawrth yn ystod y sioe frecwast ar BBC One.

Rwy'n poeni am effaith y penderfyniad hwn ar bobl Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r bwletinau newyddion rhanbarthol yn ystod y sioe frecwast yn fodd pwysig o hysbysu pobl am faterion sy'n effeithio arnynt. Efallai na fydd y demograffig sy'n gwyllo'r sioe frecwast o reidwydd yr un demograffig â'r un sy'n gwyllo rhaglenni newyddion gyda'r hwyr. Felly, heb fwletin newyddion o Gymru yn ystod y sioe frecwast, mae risg na fydd pobl yn cael digon o wybodaeth am y Coronafeirws yng Nghymru.

Rwy'n deall bod y BBC dan bwysau sylweddol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig yn ystod y cyfnod digynsail hwn bod pobl yng Nghymru yn parhau i gael newyddion a gwybodaeth sy'n benodol i Gymru. Felly, gofynnaf i chi ailystyried penderfyniad y BBC i beidio â dangos bwletinau o Gymru yn ystod y sioe frecwast.

Os bydd pobl o Gymru yn cael eu newyddion o fwletin rhwydwaith y DU yn lle hynny, mae'n hanfodol bod y bwletinau hyn yn adlewyrchu natur ddatganoledig llawer o ymatebion y llywodraeth i'r pandemig. Er enghraifft, gan fod iechyd wedi'i ddatganoli, mae'r alwad a ohebir yn eang i wirfoddolwyr y GIG wneud cais drwy'r ap GoodSAM yn gymwys i Loegr yn unig. Yn yr un modd, mae cynlluniau rhyddhad ardrethi busnes, sy'n hanfodol er mwyn i lawer o fusnesau bach oroesi, wedi'u

datganoli i Gymru. Ni fu erioed yn bwysicach i bobl yng Nghymru gael gwybodaeth glir a chywir am realiti llywodraethu datganoledig.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Helen Mary Jones". The signature is written in a cursive, flowing style.

Helen Mary Jones AC

Cadeirydd y Pwyllgor



Email to: Helen Mary Jones AM, National Assembly for Wales,
Culture, Welsh Language and Communications Committee
SeneddCWLC@assembly.wales

Cc: Rhodri Talfan Davies; Non Tudur Williams
Rhodri.Davies@bbc.co.uk
NonTudur.Williams@bbc.co.uk

16 April 2020

Dear Helen

Thank you for your correspondence from the 31 March 2020 regarding the local BBC Breakfast bulletins during the current pandemic.

May I reassure you that decisions like this – while only a temporary measure - aren't taken lightly, but the current situation means we have to adapt and respond like never before. And while it's a privilege to play our part in responding to this national and global emergency, the operational challenges we currently face are immense and we have to focus resources carefully and where they will have maximum impact.

For that reason, it may be useful if I explain the background to this decision and why it was taken.

As you rightly acknowledge these are unprecedented times and as a result, audiences are tuning into our news, radio and online services in their numbers for the most up to date information. In fact, around 750,000 viewers are tuning into *BBC Wales Today* every day across the three main bulletins – lunchtime, early and late evening. But at this difficult time BBC Wales – along with the rest of the BBC - is balancing two priorities, that of a duty of care towards staff and delivering its responsibilities as the national broadcaster.

It's worth noting that, despite the current lockdown and higher levels of staff absence due to self-isolation and illness, BBC Wales's teams continue to deliver over 14 hours of weekday news for *BBC Wales Today*, *Newyddion* for S4C, BBC Wales News Online, BBC Cymru Fyw, BBC Radio Wales and BBC Radio Cymru. That level of programming is testament to the commitment shown, not just by the editorial staff but those working in production, technology and operations who continue to work from our broadcast bases, while the majority of colleagues are now working from home.



Therefore, the decision to pause our local service to television audiences at breakfast in the nations and regions of the UK was taken in order to safeguard staffing for our peak-time TV services, that attract much bigger audiences and to reduce the unprecedented strain on our teams and facilities.

I would also add that, overall, BBC Wales has extended its news coverage during this period - not reduced it. For example, both *Post Cyntaf* on Radio Cymru and Gareth Lewis in Drivetime on Radio Wales have been extended by half an hour and an hour respectively each day. BBC One Wales is also broadcasting the Welsh Government's daily press conference at 12.30pm every day.


I hope this goes some way to address the points and concerns you raise.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads 'Ken MacQuarrie'.

Ken MacQuarrie

Director, BBC Nations & Regions



Dear Assembly Member,

I am writing to you on behalf of the Welsh Community Radio Network, a newly formed organisation which will represent Community Radio stations in Wales, both publicly and to Government.

We write to you for the first time, in what are unprecedented times. Many of the stations across Wales have had to reduce services, with volunteers and staff self or social isolating, putting a major drain on stations.

Despite this, the majority are able to continue a regular service, with local, friendly voices providing entertainment and delivering huge community benefit, through the sharing of information and news. We have already heard of stations losing advertising during this crisis and we are concerned about the long term impact it could have on the sector within their communities.

These services provide volunteering opportunities to hundreds across Wales and with many stations now worrying about balancing the books, whilst keeping their services on air, it's vital that support is provided now before it's too late.

Speaking to stations, there is a worry about wages, rent and outgoings, including their OFCOM annual fees which are due this month will be paid, as advertisers cut their advertising campaigns daily.

As a sector, we are calling on the Welsh and UK Government to offer a helping hand to these Stations, which are a vital source of news and information, not just during these difficult times, but every day of the year.

Yours sincerely,

Nathan Spackman

Bro Radio

Steve Johnson

University of South Wales

On behalf of and representing:

BGFM, Bro Radio, Calon FM, GTFM, Mon FM, Radio Cardiff, Radio Tircoed, Radio Glan Clwyd, Rhondda Radio, Tudno FM

Eitem 3.3



7 April 2020

Helen Mary Jones AM
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Dear Helen,

I hope you're keeping safe and well in these extraordinary times. I wanted to write to brief and reassure you about the cost reduction measures you may have seen announced yesterday by Reach plc, and their impact on our operations here at Media Wales.

Across our group, which as I'm sure you know publishes the Mirror, the Express, the Daily Record and regional titles including the Manchester Evening News and Liverpool Echo alongside our Welsh titles, around 20% of the workforce was furloughed yesterday. In addition, all staff were asked to take a pay cut of 10%, with the board and senior team taking 20%. Those on furlough will have their pay topped up by 10% so they are not financially disadvantaged compared to those colleagues who have been able to continue in their roles.

Asking hard-working colleagues to step back from the crucial work of keeping the public informed about the coronavirus pandemic in their areas, as well as producing other content allowing for much-needed diversion from the relentlessness of the bleak news agenda, made me desperately sad. At Media Wales, we pride ourselves on the products and audiences that we've built. Asking people to leave that work behind, albeit temporarily, was a difficult task for us all.

The last few weeks have demonstrated the crucial role regional and local publishers like us play in keeping the public informed about the matters that affect their lives. With many unable to get to shops to buy newspapers, our online traffic - driven largely by our live updates and informational content about the pandemic - has increased by around 70% since the outbreak began. People need what we do more than ever before. But it's becoming harder and harder to do it, thanks to a perfect storm of market conditions.

Since lockdown began, our sales teams across the UK have been conducting an audit of our local advertisers. At the last count, 70% were not currently trading, and the vast majority of the rest were cutting down significantly or entirely on their advertising spend. Circulation revenue is still a huge contributor to our revenues, but thousands of our readers are not currently able or willing to visit shops to buy their newspapers. Online, the UK's biggest brands have taken the decision - for reasons best known to themselves - to block their adverts from appearing next to content with any kind of connection to the outbreak.

I'm sure you can imagine the cumulative effect these three factors are having on a sector that was already challenged in normal times, and can see how they've made announcements like yesterday's inevitable.

Media Wales Limited

Six Park Street | Cardiff | CF10 1XR | Tel: 029 2022 3333

Urban Village | 220 High Street | Swansea | SA1 1NW | Tel: 01792 545 500

www.walesonline.co.uk

Tudalen y pecyn 18
Media Wales is part of **Reach**

Registered Office: One Canada Square,
Canary Wharf, London E14 5AP
Registered No. 46946 England & Wales



Nonetheless, we remain more committed to our readers and brands than ever before. The appetite for the challenge that our staff have shown throughout this - from shifting our entire office-based operation to working from home in 24 hours to forming new modes of communication while working remotely - has been inspiring. And while we will have to cut our cloth accordingly to take into account our mitigation measures - including reducing the pagination of our titles and printing earlier to deal with press site staff shortages - I am confident in our ability to minimise the impact of this on the service we provide our readers.

While the financial situation we're experiencing is largely the result of the measures introduced to tackle the pandemic, there are some steps I'd urge you to take to help us protect local news during the outbreak and beyond it:

- Encourage agencies to place coronavirus-related public information campaigns in regional and local publishers. I was encouraged last month to see Public Health Wales run a campaign through our channels to inform readers about key messaging - more of this from more organisations would be enormously valuable, and I believe the trusted nature of our brands provides the perfect vehicle for this important messaging.
- Lobby the Welsh Government - as well as the UK Government and devolved administrations on behalf of the wider industry - to extend the business rates holiday introduced for retail, hospitality and leisure to include news publishers, in respect to the crucial public service we are providing at this time.
- Ask local authorities to continue to use local publishers to display public notices, which remain a crucial line of revenue for us and businesses like us.
- Help change the negative narrative around the regional media, which now more than ever risks becoming a self-fulfilling prophecy. In a world where rumour and conspiracy theories abound like never before, our industry remains a pillar of trusted, verified news that we all should be encouraging people to access. I hope you will agree from your dealings with my staff that they are responsible, professional and diligent individuals, and the news service we produce as a team is a result of that.

Like many businesses, we are under unprecedented pressure from the economic crisis that this pandemic has created. Your support for other sectors of the economy has been heartening - please help support us in the same way.

Yours sincerely,



Paul Rowland
Editor in Chief, Media Wales
Editor, WalesOnline

Paul Rowland

Prif Olygydd, Media Wales

20 Ebrill 2020

Annwyl Paul,

Media Wales a COVID-19

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Ebrill.

Rwy'n cytuno bod cyhoeddwyr rhanbarthol a lleol yn chwarae rhan hanfodol o ran rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd yn ystod y pandemig a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi yn Media Wales am eich gwaith caled a'ch ymrwymiad yn ystod y cyfnod anodd hwn.

O ystyried y dirywiad yn y sector papurau newydd lleol dros y blynyddoedd diwethaf, rwy'n llwyr ddeall yr heriau ychwanegol yr ydych yn eu hwynebu fel busnes o ganlyniad i ostyngiadau mewn refeniw hysbysebu a chylchredeg.

Dros y misoedd nesaf bydd y Pwyllgor yn craffu ar ddull Llywodraeth Cymru o reoli effaith Covid-19. Yn ystod ein trafodaethau, byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru sut y gall wella ei chymorth i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau statudol. Ffactor allweddol y byddwn yn ei ystyried yn ein gwaith craffu fydd pwysigrwydd cyfryngau lleol â digon o adnoddau yng Nghymru o ran darparu newyddion a gwybodaeth glir a chywir yn y cyfnod digynsail hwn. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at ein Pwyllgor cyfatebol yn Nhŷ'r Cyffredin yn gofyn iddo drafod â Llywodraeth y DU pa gymorth y gall ei roi i'r sector cyfryngau lleol yn ystod y pandemig ac yn barhaus.

Yn gywir,



Helen Mary Jones AC

Cadeirydd y Pwyllgor

Nodyn briffio i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Pecyn cymorth BBC Cymru i gefnogi'r diwydiannau creadigol

Cefnogaeth i'r sector cynhyrchu annibynnol

Ar 6 Ebrill, cyhoeddodd BBC Cymru Wales becyn cymorth arbennig i gynorthwyo cwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'r darlledwr yn ystod yr argyfwng Coronafeirws. Gyda'r bwriad o gefnogi'r sector yn ystod yr argyfwng Coronafeirws presennol, mae'n cyd-fynd â chynlluniau a gyflwynwyd gan deledu rhwydwaith y BBC i gefnogi cynhyrchwyr annibynnol ledled y DU.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Rownd gomisiynu newydd BBC Cymru sy'n edrych ar raglenni teledu a radio sy'n adlewyrchu bywyd yn ystod yr argyfwng presennol a thu hwnt
- Dyblu Cronfa'r BBC i Gwmnïau Annibynnol Bach (o £1m i £2m) – sy'n cael ei reoli gan BBC Content – i gefnogi cwmnïau annibynnol llai ar draws y DU, sydd yn y sefyllfa fwyaf bregus ar hyn o bryd. Bydd comisiynwyr teledu BBC Cymru a Rhwydwaith y BBC yn cydweithio i nodi cwmnïau addas
- Cronfa un-tro BBC Cymru i gyflymu prosiectau datblygu teledu fel drama a chomedi gan gadw golwg ar amserlenni'r dyfodol y tu hwnt i 2020
- Cronfa ddatblygu radio i gefnogi syniadau newydd am raglenni ar draws Radio Cymru a Radio Wales sy'n gallu cael eu cynhyrchu'n gyflym i'w darlledu yn ystod y misoedd nesa
- Cyfleoedd comisiynu ffurf-fer newydd ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol BBC Cymru gyda'r bwriad o addysgu a difyrru cynulleidfaoedd – yn enwedig y rheini o dan 45 oed
- Mwy o fuddsoddiad yng nghynnwys archif BBC Cymru ar BBC iPlayer drwy brynu rhaglenni gan bartneriaid o fewn y sector. Y bwriad yw cyflwyno archif sylweddol o gynnwys Cymreig gwych ar BBC iPlayer yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesa
- Ymrwymiad gan BBC Cymru a theledu rhwydwaith i weithio'n agos gyda chwmnïau cynhyrchu ar brosiectau cyfredol yr amharwyd arnynt, er mwyn dod o hyd i atebion cefnogol lle bo'n bosib. Bydd hyn yn cynnwys bod yn hyblyg o ran cyfleu rhaglenni, ac amrywio'r llif arian lle bo'n briodol fesul teitl.

Mae BBC Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag uned Cymru Greadigol o fewn Llywodraeth Cymru i ganfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio tra'n cefnogi'r sector ehangach.

Yn dilyn yr alwad gomisiynu ar deledu, radio ac ac-lein, cyhoeddwyd yr wythnos hon y bydd cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn cynhyrchu dros 30 o raglenni newydd ar gyfer BBC One Wales, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales i'w darlledu cyn diwedd Medi. Maen nhw'n cynnwys:

- Ar BBC One Wales, bydd Carol Vordeman yn cyflwyno sioe newydd sbon pedair-rhan bob nos lau ar BBC One Wales am 7.30pm. Bydd llu o westeion yn ymuno â Carol ar *The Great Indoors* gan ddod â'r straeon gorau o Gymru i godi calon. Bydd y cynhyrchiad – a'r tro cyntaf i BBC Cymru – yn gydweithrediad rhwng amrywiaeth

o gwmniau cynhyrchu annibynnol, gan gynnwys BBC Studios, Boom Cymru, Marmalade TV, One Tribe, Hall Of Mirrors, Darlun a Yeti.

- Ar nos Lun (BBC One Wales am 9pm) byddwn yn troi'n sylw at Ysbyty Brenhinol Gwent a staff yr Uned Gofal Dwys yn *Critical: Coronavirus in Intensive Care* - rhaglen ddogfen bwerus a gynhyrchwyd gan Folk Films a'i ffilmio'n gyfan gwbl gan staff y GIG ar ffonau symudol a chamerau bach, gan roi cipolwg prin i wylwyr o'r Uned Gofal Dwys.
- Bydd y gyfres gomedi deledu lwyddiannus, *Tourist Trap* yn troi at y tonfeddi am rifyn arbennig, *Tourist Trap: The Stay at Home Radio Special* ar 22 Mehefin ar BBC Radio Wales. Yn ymuno â Sally Phillips fydd y digrifwyr Elis James, Mike Bubbins, Tudur Owen a Sarah Breese, wrth i'r asiantaeth dwristiaeth anobeithiol wynebu'r her o stopio twristiaid rhag ymweld â Chymru. (Cynhyrchwyd gan The Comedy Unit)
- Bydd rhaglen arbennig ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, *The Mind Shed*, ar BBC Radio Wales ar 19 Mai yn bwrw golwg ar sut mae ymbellhau cymdeithasol ac hunanynysu yn effeithio ar ein hiechyd meddwl, gyda dynion, yn enwedig mewn perygl. (Cynhyrchwyd gan One Tribe)
- Ar BBC Radio Cymru, bydd Dylan Ebenezer yn cyflwyno sioe banel newydd, *Ynys yr Hunan-Ynyswyr*, wrth iddo wahodd dau westai i gystadlu am y moethusrwydd o gael aros ar yr ynys gydag e, yn seiliedig ar eu dewis o lyfrau, cerddoriaeth a ffilmiau. (Cynhyrchwyd gan Rondo Media)
- Am am y tro cyntaf ar Radio Cymru, bydd Jon Gower yn gwahodd gwrandawyr i gyflwyno eu syniadau i greu nofel dorfol ddyddiol yn arddull opera sebon, bob dydd ar raglen *Aled Hughes*. (Cynhyrchwyd gan Gwmni Unigryw)

Cefnogi'r diwydiannau creadigol ehangach

Ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud, cyflwynwyd y partneriaethau a'r mentrau canlynol:

- Mae BBC Cymru a BBC Arts yn bartneriaid darlledu ar gyfer menter rwydwaith National Theatre Wales – rhaglen ddigidol newydd o gyfleoedd i wneuthurwyr theatr, wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â dau o sefydliadau theatr amlycaf Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr y Sherman– a'i datblygu mewn ymateb i effaith cyfyngiadau symud COVID-19.
- Mae BBC Radio Cymru a BBC Cymru Fyw hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru ar Creu Ar-Lein, rhaglen sy'n dod â detholiad o ddramâu byrion i blatfformau digidol.
- Roedd y bartneriaeth rhwng BBC Radio Wales a Gŵyl Gomedi Machynlleth yn golygu bod yr ŵyl – a ganslwyd oherwydd yr argyfwng presennol – yn gallu parhau ar y radio gydag amrywiaeth o raglenni yn ystod penwythnos cyntaf mis Mai.
- Cyhoeddodd yr Urdd math newydd o Eisteddfod – Eisteddfod T – yn sgil canslo'r ŵyl ieuencid eleni yn Sir Ddinbych. Bydd yr Eisteddfod wahanol hon yn darlledu ei rowndiau terfynol ar raglenni a drefnwyd yn arbennig ar BBC Radio Cymru. Gyda gwyliau a sioeau awyr agored yn cael eu canslo ar hyd a lled Cymru, ry'n ni'n falch o fod yn gweithio gyda phartneriaid, fel yr Urdd a Gŵyl Gomedi

Machynlleth, i ddod â phobl yn agosach at ei gilydd ar adeg pan mae nifer yn teimlo'n ynysig ac ar eu pennau eu hunain, yn ogystal â chreu eiliadau o ddathlu cenedlaethol.

- Mae Horizons/Gorwelion – y prosiect cerddorol sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a BBC Cymru - wedi bod yn cefnogi cerddorion ledled y wlad drwy ffrydio cerddoriaeth fyw o gartrefi'r cerddorion i gynulleidfaeoddedd ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Dim ond oherwydd cysylltiadau presennol y prosiect â'r diwydiant y bu'r fenter yn bosib.
- Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC – er nad yw'r gerddorfa na'r corws yn llenwi neuaddau cyngerdd ar hyn o bryd, mae'r chwaraewyr a'r staff wedi bod yn creu cynnwys digidol apelgar, dyrchafol ac unigryw i ddiddanu cynulleidfaeoddedd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae aelodau'r gerddorfa yn cymryd rhan mewn mentrau addysg ar-lein a digwyddiadau cerddorol digidol a chyfresi fideo hwyllog. Ac ar ddydd Iau, 7 Medi, byddant yn gweithio o adref – gyda'r bariton-bas Bryn Terfel i berfformio fersiwn ddigidol newydd o Gwŷr Harlech ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon